# ADRODDIADAU ARHOLWYR

## LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL

## IONAWR 2020

© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau’r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy’n rhoi'r caniatâd i’r staff yn y ganolfan gyrchu’r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae’r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

© WJEC CBAC Ltd.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2020**

**TECHNEGAU MESUR FFISIOLEGOL**

Roedd y gwaith a gyflwynwyd wedi'i drefnu'n dda ac yn gyffredinol roedd yn bodloni gofynion yr aseiniad enghreifftiol. Roedd rhai sgriptiau o'r safon uchaf a dylai staff a myfyrwyr fod yn falch iawn ohonyn nhw. Anodwyd rhywfaint o'r gwaith yn glir gyda'r meini prawf asesu a sylwadau, sy'n ei gwneud yn hawdd gweld pam y dyfarnwyd marciau priodol i'r ymgeisydd. Mae sgriptiau sydd â fawr ddim anodi/heb unrhyw anodi o gwbl yn ei gwneud yn anodd gweld pam y dyfarnwyd marciau.

MPA1.1 Mae taflen grynodeb y dysgwr yn nodi "Tasg 2. Cynnal mesuriadau ffisiolegol. Cynllunio Cofnod Arsylwi. I gael y marciau uchaf, rhaid cynnal dau brawf o ddau bwynt bwled o gynnwys uned (h.y. **profion o ddwy system wahanol:** er enghraifft pwysedd gwaed [cardiofasgwlar] ac anterth llif [resbiradol])."

Mae DD2 yn nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr ddeall sut i ddelio â chleifion, gyda MPA2.1 yn nodi bod yn rhaid iddyn nhw **esbonio** pwysigrwydd cyfrinachedd cleifion. Gofynna MPA2.2 iddyn nhw **ddisgrifio** ymddygiad tuag at gleifion. Felly, ni all ymgeisydd ennill marc band 3 am MPA2.1 a 2.2 os mai'r **unig** dystiolaeth yw sylw gan yr aseswr ar y cofnod arsylwi. Dylai cofnod yr aseswr fod yn gydnabyddiaeth yn unig fod y cynllun, sy'n esbonio pwysigrwydd cyfrinachedd a disgrifiad o ymddygiad priodol tuag at gleifion, wedi'i gyflawni'n foddhaol mewn sefyllfa claf go iawn.

Mae'r un peth yn wir am MPA3.3. Disgwylid y byddai'r ymgeisydd eisoes wedi llunio tabl i gofnodi'r data wrth eu casglu o'r cyfarpar ar y diwrnod. Dylai fod yr holl ddata wedi'u cofnodi'n ddarllenadwy yn y tabl gyda'r unedau cywir yn y penawdau, nid yng nghorff y tabl, a hefyd gydag ailadroddiadau a manylion priodol. Bydd llungopïau neu ffotograffau yn ddigonol fel tystiolaeth, ond ni fydd sylwadau aseswyr yn unig yn cyflawni band 3.

Mae holiaduron cleifion yn dystiolaeth ardderchog, ond mae'n rhaid bod cwestiwn sy'n cyfeirio at wryw/benyw, fel bod yr aseswr/cymedrolwr yn gallu gweld bod yr ymgeisydd wedi ystyried y gwahaniaeth yn y gwerthoedd arferol perthnasol o ran y canlyniadau a gafwyd.

Mae MPA3.1 yn nodi "cynllunio i gynnal profion mesur ffisiolegol. **Agweddau allweddol ar y cynllun** • nodi gwybodaeth i'w chasglu • gweithdrefnau a chyfarpar • lleoliad • amseru • hysbysu unigolion. **Gweithdrefnau a chyfarpar** • nodi gweithdrefnau • hysbysu technegydd o'r cyfarpar a'r amserau sy'n ofynnol. **Hysbysu unigolion** • cleifion • personél eraill sy’n cael eu heffeithio (e.e. cyfleusterau).” Felly ni all ymgeisydd, sydd ddim ond yn cynllunio'r **gweithdrefnau** heb gyfeirio at yr holl ffactorau eraill y mae angen ymdrin â nhw, fod yn y band uchaf ar gyfer MPA3.1.

© WJEC CBAC Ltd.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2020**

**DULLIAU YMCHWIL GWYDDOR FEDDYGOL**

Cyflwynwyd gwaith gan ddwy ysgol ar gyfer y sesiwn hon.

Roedd y gwaith gweinyddol yn gywir, a'r ymgeiswyr wedi llofnodi taflenni dilysu. Yn gyffredinol roedd safon y gwaith a gyflwynwyd yn dda ac roedd yr asesiadau gan y canolfannau'n gywir, gan fwyaf, ac roedd y cymedrolwyr yn cytuno â nhw.

Cafwyd gwelliant dymunol yn yr esboniad o'r termau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi data a'r defnydd o nodiant mathemategol ar gyfer MPA 3.1 a 4.4.

Cyflawni MPA 3.2 a 4.1 yw'r anhawster mwyaf i ymgeiswyr o hyd. I geisio gwella hyn, mae angen i ymgeiswyr ystyried yn ofalus y rhagdybiaeth ar gyfer eu hymchwiliad lle mae'r un newidyn annibynnol wedi'i nodi'n glir. Yna dylid cynllunio'r holiadur ymchwil gan ystyried y rhagdybiaeth a gan osgoi defnyddio cwestiynau amherthnasol. Bydd gormod o gwestiynau amherthnasol yn atal ymgeiswyr rhag cyrraedd band 3 ar gyfer MPA2.2. Dylai arddull y cwestiynau ganiatáu i ddata meintiol gael eu casglu ac yna eu dadansoddi. Mae angen cymryd gofal yma bod y prawf ystadegol cywir yn cael ei ddewis ar gyfer y math o ddata sy'n cael eu casglu ac nad yw wedi'i gymhwyso at ddata ar hap yn unig er mwyn cynnwys prawf ystadegol yn y dadansoddiad.  Er bod angen defnyddio prawf ystadegol priodol i gyflawni band 3 yn MPA4.1, gall ymgeiswyr gyflawni bandiau 1 a 2 o hyd drwy gyfrifo gwerthoedd cymedrig a gwyriad safonol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol yn y ddogfen 'Canllawiau Addysgu'.

© WJEC CBAC Ltd.

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3**

**Ionawr 2020**

**MEDDYGINIAETHAU A THRIN CLEFYDAU**

## Cyflwyniad a Sylwadau Cyffredinol

Mae Uned 4 yn uned a asesir yn fewnol sydd yn werth 50% o farciau'r ail flwyddyn. Mae wedi'i rhannu'n dair tasg. Mae pob tasg yn caniatáu i ymgeiswyr gyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd sy'n briodol i'w cynulleidfa.

Mae disgwyl i ymgeiswyr gwblhau dau gyflwyniad i staff ysbyty ynglŷn â gweinyddu ac effeithiau meddyginiaethau ar gyfer tasg un. Ar gyfer tasg 2, mae disgwyl i ymgeiswyr lunio gwybodaeth i gleifion am bedair meddyginiaeth wahanol a thasg tri yw gwybodaeth am ganser, beth sy'n achosi canser a thriniaethau.

Cyflwynwyd gwaith gan 4 canolfan ar gyfer uned 4 yn y gyfres hon. Roedd rhai canolfannau yn cyflwyno'r uned hon am y tro cyntaf.

Byddai anodi clir a manwl wedi helpu'r cymedrolwyr mewn rhai achosion. Roedd rhai canolfannau wedi cynhyrchu gwaith da yn gyson ac roedd y canolfannau hyn wedi cymhwyso'r canllawiau marcio'n gywir ac wedi anodi'r gwaith, a oedd o gymorth.

Roedd pob canolfan wedi cyflwyno'r dogfennau gweinyddol cywir ac roedd pob canolfan wedi cynnwys taflenni dilysu wedi'u llofnodi gan yr ymgeiswyr. Cwblhawyd y taflenni cofnodi marciau gan y mwyafrif o ganolfannau.

Cynghorir canolfannau i gyfeirio at waith enghreifftiol ar wefan ddiogel CBAC yn enwedig ar gyfer tasg 2 gan fod y taflenni wedi'u cyflwyno mewn modd syml ac effeithiol sy'n caniatáu i ymgeiswyr ennill marciau ar gyfer pob maen prawf marcio.

Bydd unrhyw waith y gwelir ei fod wedi'i gopïo neu ei ladrata yn cael ei dynnu i lawr i Fand 1 gan fod hyn yn dangos nad yw ymgeiswyr yn deall y gwaith yn ddigon da i ennill unrhyw farciau pellach. Dylid atgoffa ymgeiswyr na ddylid copïo gwaith o unrhyw adnoddau ac y dylai'r holl waith a gyflwynir fod yn wreiddiol.

## Sylwadau Penodol i'r Dasg

### Tasg 1

Roedd safon y cyflwyniadau'n uchel iawn a chafodd llawer o ymgeiswyr farciau llawn bron am y dasg hon. Cwblhawyd cofnodion arsylwi yn dda gan y mwyafrif o ganolfannau er bod nifer fach o ganolfannau yn dal i fethu cynnwys datganiadau perthnasol o'r fanyleb fel cyfiawnhad o'r marciau a ddyfarnwyd neu nodiadau'r siaradwr gan yr ymgeiswyr.

Mewn cyflwyniadau yn y dyfodol, mae'n rhaid i ganolfannau gynnwys y dogfennau canlynol ynghyd â chofnod arsylwi wedi'i gwblhau: **copi o'r deunydd cyflwyno (mae un fesul grŵp yn ddigonol), nodiadau siaradwr yr ymgeiswyr (os yn berthnasol) a disgrifiad myfyriol gan bob ymgeisydd yn amlinellu ei gyfraniad at waith tîm**.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**
Roedd yn amlwg bod rhai canolfannau'n cael trafferth cwblhau'r dasg hon. Roedd ansawdd y gwaith yma'n amrywio. Roedd yn ymddangos bod rhai canolfannau wedi deall yr hyn sydd ei angen er mwyn gallu dyfarnu marciau'r band uchaf, ond roedd canolfannau eraill yn marcio'n rhy hael.

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n bwysig bod pob un o'r pedair taflen yn dangos tystiolaeth o bob MPA ar gyfer y dasg. Roedd llawer o'r aseswyr yn rhy hael yn enwedig â'r meini prawf canlynol:

- **MPA2.2 –** mae angen i ymgeiswyr esbonio sut mae meddyginiaethau yn effeithio ar **systemau'r corff**. Mewn llawer o achosion nid oedd system y corff wedi'i henwi. Mae hyn yn cyfyngu ar farciau'r ymgeisydd oherwydd nid yw enwi organ neu ran o'r corff yn ddigon.
- **MPA2.4** – mae'n bosibl i ymgeiswyr esbonio sut mae llawer o feddyginiaethau, nid dim ond gwrthfiotigau, yn gallu colli eu heffeithiolrwydd a byddai disgwyl hyn er mwyn cael marciau band 3.
- **MPA2.5** – rhoddodd llawer o ymgeiswyr restr o'r meddyginiaethau sy'n rhyngweithio â'r feddyginiaeth dan sylw, ond nid yw hyn yn ddigon i gael marciau band 2 neu 3. Dylai ymgeiswyr **esbonio** sut mae'r meddyginiaethau hyn yn rhyngweithio â'r feddyginiaeth dan sylw.
- **MPA2.7 –** nid yw rhestr syml o sgil effeithiau'n ddigon yma, ac eto roedd llawer o ganolfannau'n rhoi marciau uchel am hyn. Mae angen i ymgeiswyr **esbonio** sut mae'r adwaith niweidiol i'r feddyginiaeth wedi digwydd yn y corff a dylen nhw roi enghreifftiau.

Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi cynnwys cyfiawnhad o'r dull a ddefnyddiwyd wrth gyflwyno Tasg 2, MPA4.2. Rhaid i hyn fod yn bresennol er mwyn i ymgeiswyr ennill unrhyw farciau am y MPA hwn. Eto, ni roddir marc os nad yw'r ymgeisydd yn cynnwys hyn yn y gwaith, ac eto roedd canolfannau'n dal i roi marciau uchel heb ddim tystiolaeth.

**Tasg 3**
Roedd llawer o'r canolfannau wedi cyflwyno gwaith derbyniol ar gyfer tasg 3 ac roedd hwn wedi'i asesu'n briodol gan ddefnyddio'r canllawiau marcio. Eto, fodd bynnag, mewn rhai canolfannau roedd yr aseswyr yn rhy hael wrth farcio.

Ar gyfer MPA3.1 cafodd ymgeiswyr farciau band 3 am waith nad oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol i ddisgrifio'r term canser. Gan mai dim ond 4 marc sydd am y MPA hwn, mae'n bwysig cynnwys pob agwedd ar y gwaith. Yna, dylid lleihau'r marc a roddir os oes unrhyw beth wedi'i hepgor. Gweler y fanyleb am lefel y manylion sy'n angenrheidiol yma.

Yn gyffredinol roedd MPA3.2 wedi'i gwblhau a'i asesu'n dda ac roedd yr ymgeiswyr yn esbonio sail genetig canser yn glir, ac roedd y gwaith hwn wedi'i asesu yn unol â'r canllawiau marcio.

Mae MPA3.3 yn caniatáu i ymgeiswyr gael marciau uchel am ddisgrifio opsiynau posibl i drin canser. Roedd hyn, eto, wedi'i wneud yn dda gan y mwyafrif. Mae'n werth nodi yma bod angen i ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth am bob opsiwn posibl i drin canser sydd wedi'i gynnwys yn y canllawiau i athrawon er mwyn cael marciau band 3. Dylid disgrifio'r rhain yn ddigon manwl ar gyfer y marciau band 3 ac eto dylid lleihau nifer y marciau a roddir os oes unrhyw beth wedi'i hepgor.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd llawer o ganolfannau'n cael trafferth â MPA3.4 gan fod **rhaid** i ymgeiswyr gynnwys asesiad o effaith bosibl triniaethau newydd ar gyfer canser, nid disgrifiad syml o'r driniaeth. Roedd rhai aseswyr wedi dyfarnu marciau am ddisgrifiadau o'r triniaethau heb asesiadau o'u heffeithiau – mae hyn yn anghywir ac os nad yw ymgeiswyr wedi gwneud asesiad ni allant ennill y marciau hyn.

**Crynodeb**

I grynhoi, roedd tasg un yn dasg o safon uchel ac roedd y mwyafrif o ganolfannau wedi darparu'r dogfennau cywir a chymhwyso'r canllawiau marcio'n gywir.

Roedd tasg dau yn amrywio ar draws canolfannau. Tuedda'r marcio i fod yn rhy hael gyda diffyg anodi.

Roedd tasg tri yn tueddu i fod wedi'i gwneud yn dda, ac roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi deall y briff yma.



© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.